# Adroddiad Asesu Corfforaethol 2015

# Cyngor Sir Penfro

Cyhoeddwyd: Rhagfyr 2015
Cyfeirnod y ddogfen: 617A2015



Paratowyd yr Adroddiad Asesu Corfforaethol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Colin Davies, Justine Morgan, Jeremy Evans, Gareth Lewis, Alison Lewis, Timothy Buckle, Huw Rees a Katherine Simmons o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.


**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**


Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y cyd ag archwilwyr penodedig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Cynnwys


Adroddiad cryno 4

Argymhellion 7

Cyflwyniad 8

Adroddiad manwl 10

Ni all y Cyngor hyd yma ddarparu sicrwydd digonol fod ei drefniadau yn gallu cyflawni ei flaenoriaethau a gwella canlyniadau i ddinasyddion 11

Mae'r Cyngor ar gamau cynnar yn y gwaith o ddatblygu strategaeth gorfforaethol newydd ac egwyddorion sefydliadol ac, er bod ganddo drefniadau ar waith i ymgysylltu a hysbysu, nid yw wedi cysylltu hyd yma â chroestoriad eang o'i ddinasyddion 11

Mae gwendidau mewn trefniadau llywodraethu a'u dull cymhwyso yn arwain at aneffeithlonrwydd, atebolrwydd gwael a diffyg tryloywder wrth wneud penderfyniadau 16

Nid oes gan y Cyngor ddigon o ffocws ar ei swyddogaethau corfforaethol strategol allweddol i gael sicrwydd ei fod yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau 20

Mae'r Cyngor yn gweithio'n rhagweithiol â phartneriaid strategol i wella canlyniadau i ddinasyddion Sir Benfro 29

Mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen i adolygu ei drefniadau ar gyfer cynllunio gwelliant a rheoli risgiau er mwyn dangos cynnydd o ran blaenoriaethau corfforaethol tra'n cyflawni'r gostyngiadau angenrheidiol mewn costau 31

Mae'r Cyngor wedi gwneud gwelliannau mewn rhai meysydd blaenoriaeth allweddol, wedi gwella ei berfformiad dros y flwyddyn flaenorol, ac wedi gwella o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru 34

Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn 38

Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2015-16 Cyngor Sir Penfro 39

# Adroddiad cryno

1 Yn 2013-14, dechreuodd staff Swyddfa Archwilio Cymru gylch pedair blynedd o asesiadau corfforaethol o fewn awdurdodau gwella yng Nghymru. Golyga hyn, yn ogystal â rhaglen flynyddol o astudiaethau gwella ac archwiliadau o ddulliau cynghorau o gynllunio gwelliant ac adrodd ar welliant, y bydd pob Cyngor yn cael Asesiad Corfforaethol manwl unwaith yn ystod cyfnod o bedair blynedd. Yn y cyfamser, byddwn yn olrhain datblygiadau ac yn cyflawni gwaith asesu pellach sy'n canolbwyntio ar nifer o themâu allweddol, a ddatblygir mewn trafodaeth â phob Cyngor.

2 Gwnaethom gynnal ein prif waith maes ar yr Asesiad Corfforaethol yng Nghyngor Sir Penfro (y Cyngor) yn ystod Ebrill 2015 ac rydym wedi bod yn olrhain cynnydd ers hynny. Rydym wedi canolbwyntio ar y graddau y mae trefniadau'r Cyngor yn cyfrannu at y gwaith o wella perfformiad gwasanaethau a chanlyniadau i ddinasyddion.

3 Diben yr Adroddiad hwn yw darparu datganiad sefyllfa am adnoddau a gallu'r Cyngor i sicrhau gwelliant parhaus. Mae'n adrodd ar berfformiad a chanlyniadau blaenorol y Cyngor yn ogystal â'r trefniadau allweddol sydd eu hangen i ategu gwelliannau mewn gwasanaethau a swyddogaethau. Nid yw'n ceisio rhoi asesiad cynhwysfawr o berfformiad holl wasanaethau'r Cyngor.

4 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn post@archwilio.cymru neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

5 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad na all y Cyngor hyd yma ddarparu sicrwydd digonol fod ei drefniadau yn gallu cyflawni ei flaenoriaethau a gwella canlyniadau i ddinasyddion. Daeth i'r casgliad hwn am fod y tîm archwilio wedi canfod y canlynol:

a Mae'r Cyngor ar gamau cynnar yn y gwaith o ddatblygu strategaeth gorfforaethol newydd ac egwyddorion sefydliadol ac, er bod ganddo drefniadau ar waith i ymgysylltu a hysbysu, nid wedi cysylltu hyd yma â chroestoriad eang o'i ddinasyddion:

- mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen am newid sylfaenol mewn diwylliant a dull strategol hollol newydd ac mae wedi penodi partner strategol i roi'r arbenigedd a'r adnoddau angenrheidiol sydd eu hangen ar y Cyngor i hyrwyddo agenda drawsnewid sydd ar y cam datblygu cynharaf ar hyn o bryd; ac
- er bod y Cyngor yn dangos ymrwymiad i ymgysylltu â'i ddinasyddion a'u hysbysu am ei flaenoriaethau a'i heriau o ran y gyllideb, nid yw ei drefniadau ar gyfer gwneud hynny hyd yma wedi cysylltu â chroestoriad eang o bobl.

b Mae gwendidau mewn trefniadau llywodraethu a'u dull cymhwyso yn arwain at aneffeithlonrwydd, atebolrwydd gwael a diffyg tryloywder wrth wneud penderfyniadau:

- mae diffyg dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau yn gwanhau'r dulliau llywodraethu ac atebolrwydd;
- nid yw'r broses gwneud penderfyniadau yn gyson dryloyw; ac
- nid oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar waith i nodi a mynd i'r afael â gwendidau ym maes llywodraethu.

c Nid oes gan y Cyngor ddigon o ffocws ar ei swyddogaethau corfforaethol strategol allweddol i gael sicrwydd ei fod yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau:

- mae cryn le i wella trefniadau cynllunio ariannol, rheoli a gwneud penderfyniadau'r Cyngor er mwyn parhau i wasanaethu'r Cyngor yn dda wrth ymdrin â'r heriau ariannol y mae'n eu hwynebu yn 2015-16 a thu hwnt.
- mae gan y Cyngor bortffolio eiddo cadarn ac mae'n cydnabod yr angen i ddatblygu dull mwy strategol o reoli ei asedau er mwyn cefnogi blaenoriaethau gwella a sicrhau gwerth am arian. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn rhy araf;
- er bod staff yn gwerthfawrogi'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer arfarnu perfformiad personol a dysgu a datblygu, nid oes gan y swyddogaeth Adnoddau Dynol y weledigaeth na'r adnoddau i gyflawni rôl galluogi gorfforaethol strategol, ac nid yw'r gwaith strategol o gynllunio'r gweithlu wedi ei ddatblygu'n ddigonol; ac
- mae defnydd y Cyngor o swyddogaethau technoleg a rheoli gwybodaeth yn cefnogi gwasanaethau yn effeithiol ar y cyfan, er nad yw'n glir sut y caiff y gwasanaethau galluogi hyn eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad gan aelodau.

ch Mae'r Cyngor yn gweithio'n rhagweithiol gyda phartneriaid strategol i wella canlyniadau i ddinasyddion Sir Benfro:

- mae partneriaid strategol yn fwy cadarnhaol ynghylch cydweithio yn y dyfodol gan eu bod yn ymwybodol o newid o ran natur agored a diwylliant y Cyngor; ac
- mae'r Cyngor yn monitro perfformiad ei bartneriaethau strategol yn weithredol er mwyn gwerthuso cynnydd wrth gyflawni canlyniadau gwell i ddinasyddion mewn perthynas â blaenoriaethau'r Cynllun Integredig Sengl.

d Mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen i adolygu ei drefniadau ar gyfer cynllunio gwelliant a rheoli risgiau er mwyn dangos cynnydd o ran blaenoriaethau corfforaethol tra'n cyflawni'r gostyngiadau angenrheidiol mewn costau:

- mae'r Cyngor yn adolygu ei ddull o gynllunio gwelliant er mwyn sicrhau bod gan ei flaenoriaethau corfforaethol adnoddau digonol ac y gellir mesur ac arddangos cynnydd tuag at eu cyflawni; ac
- mae'r Cyngor yn atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer nodi a lleihau risg i fusnesau.

dd Mae'r Cyngor wedi gwneud gwelliannau mewn rhai meysydd blaenoriaeth allweddol, wedi gwella ei berfformiad dros y flwyddyn flaenorol, ac wedi gwella o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru:

- er gwaethaf y pwysau ariannol cynyddol, bu gwelliannau ym meysydd blaenoriaeth y Cyngor, gan gynnwys rheoli gwastraff, iechyd yr amgylchedd, diogelu, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg; ac
- mae'r Cyngor wedi gwella ei berfformiad cyffredinol yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol dros y flwyddyn flaenorol ac o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru.

## Argymhellion

6 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

a wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;

b gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;

c cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac

ch argymell i Weinidogion Llywodraeth Cymru eu bod helpu'r Cyngor neu'n ymyrryd mewn rhyw ffordd.

7 Mae'r Archwilydd Penodedig yn gwneud yr argymhelliad canlynol ar gyfer gwella:

| Argymhelliad | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r Cyngor lunio cynllun strategol sy'n nodi gweledigaeth glir ar gyfer darparu ei wasanaethau yn y dyfodol o dan y cyfyngiadau ariannol a wynebir ganddo yn y tymor canolig. Dylai'r cynllun hwn ystyried a nodi, ynghyd ag amserlen glir, sut y bydd y Cyngor:<br>• yn cyflawni ei flaenoriaethau o ran gwasanaethau, ac yn sicrhau'r gostyngiadau mewn costau sydd eu hangen dros y tymor canolig;<br>• yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â'i ddinasyddion er mwyn llywio'r broses gwneud penderfyniadau mewn perthynas â chynigion i newid gwasanaethau;<br>• yn gwerthuso ac yn penderfynu pa fodelau gweithredu busnes sy'n cynnig yr opsiynau gorau o ran darparu gwasanaethau yn y dyfodol, gan ymgorffori asesiad o risgiau cymdeithasol a chymunedol toriadau arfaethedig mewn gwariant dros y tymor canolig a'r hirdymor;<br>• yn sicrhau bod proses graffu amserol a chadarn a threfniadau llywodraethu priodol eraill yn cael eu rhoi ar waith i reoli a sicrhau newidiadau; ac<br>• ar ôl i newidiadau gael eu gwneud, yn monitro ac yn craffu ar berfformiad ariannol a pherfformiad gwasanaethau er mwyn sicrhau bod gostyngiadau mewn costau yn cael eu gwireddu a bod safonau a chanlyniadau gwasanaethau y cytunwyd arnynt yn cael eu cyflawni. |

# Cyflwyniad

8 Yn 2013-14, dechreuodd staff Swyddfa Archwilio Cymru gylch pedair blynedd o asesiadau corfforaethol o fewn awdurdodau gwella yng Nghymru. Golyga hyn, yn ogystal â rhaglen flynyddol o astudiaethau gwella ac archwiliadau o ddulliau cynghorau o gynllunio gwelliant ac adrodd ar welliant, y bydd pob Cyngor yn cael Asesiad Corfforaethol manwl unwaith yn ystod cyfnod o bedair blynedd. Yn y cyfamser, byddwn yn olrhain datblygiadau ac yn cyflawni gwaith asesu pellach sy'n canolbwyntio ar nifer o themâu allweddol, a ddatblygir mewn trafodaeth â phob Cyngor.

9 Gwnaethom gynnal ein prif waith maes ar yr Asesiad Corfforaethol yng Nghyngor Sir Penfro (y Cyngor) yn ystod Ebrill 2015 ac rydym wedi bod yn olrhain cynnydd ers hynny. Er nad yw'r Asesiad Corfforaethol yn ceisio rhoi dadansoddiad cynhwysfawr o berfformiad holl wasanaethau'r Cyngor, mae'n cofnodi perfformiad a chanlyniadau blaenorol y Cyngor yn ogystal â'r trefniadau allweddol sydd eu hangen i ategu gwelliannau mewn gwasanaethau a swyddogaethau.

10 Mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar y graddau y mae trefniadau yn cyfrannu at y gwaith o wella perfformiad gwasanaethau a chanlyniadau i ddinasyddion.

11 Ceisiodd yr asesiad corfforaethol ateb y cwestiwn canlynol:
**'A all y Cyngor gyflawni ei flaenoriaethau a gwella canlyniadau i ddinasyddion?'**

12 Mae'r Asesiad Corfforaethol yn ystyried y canlynol:

a Gweledigaeth a chyfeiriad strategol:
'A yw gweledigaeth a chyfeiriad strategol y Cyngor yn cefnogi gwelliant?'

b Llywodraethu ac atebolrwydd:
'A yw trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd y Cyngor yn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau cadarn ac effeithiol?'

c Y defnydd o adnoddau:
'A yw'r Cyngor yn rheoli ei adnoddau yn effeithiol er mwyn cyflawni ei welliannau arfaethedig i berfformiad a chanlyniadau?'

ch Cydweithio a phartneriaethau:
'A yw trefniadau cydweithio a phartneriaeth y Cyngor yn gweithio'n effeithiol er mwyn gwella perfformiad a chanlyniadau?'

d Rheoli'r broses wella:
'A yw'r Cyngor yn rheoli ei raglen wella yn effeithiol?'

dd Perfformiad a chanlyniadau:
'A yw'r Cyngor yn gwneud cynnydd o ran cyflawni ei welliannau arfaethedig i berfformiad a chanlyniadau?'

13 Mae'r casgliadau a geir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd ac, oni nodir fel arall, yn adlewyrchu'r sefyllfa ar yr adeg pan gafodd y gwaith ei gyflawni.

14 Yn ogystal â'r adroddiad asesu corfforaethol hwn, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau[1].

15 Gwnaethom gyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol 2014-15 ar gyfer y Cyngor ym mis Medi 2015, ac mae'r adroddiad ar gael ar ein gwefan www.audit.wales. Gwnaed y gwaith hwn i lywio'r adroddiad gan staff Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Gyda chymorth gan arolygiaethau yng Nghymru, Estyn (ar gyfer addysg), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Chomisiynydd y Gymraeg, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni, sut mae'n gwneud hynny, a'r cynnydd y mae wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol diwetha ym mis Gorffennaf 2014. Yn olaf, gan ystyried hyn oll, noda'r Adroddiad Gwella Blynyddol gasgliad yr Archwilydd Cyffredinol o ran p'un a yw'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2015-16[2].

1 Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur.
2 Ni ddylid ystyried bod y casgliad hwn yn rhoi datganiad pendant am sefyllfa sefydliad nac yn rhagfynegi ei lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

## Adroddiad manwl

# Ni all y Cyngor hyd yma ddarparu sicrwydd digonol fod ei drefniadau yn gallu cyflawni ei flaenoriaethau a gwella canlyniadau i ddinasyddion



# Mae’r Cyngor ar gamau cynnar yn y gwaith o ddatblygu strategaeth gorfforaethol newydd ac egwyddorion sefydliadol ac, er bod ganddo drefniadau ar waith i ymgysylltu a hysbysu, nid yw wedi cysylltu hyd yma â chroestoriad eang o’i ddinasyddion

## Mae’r Cyngor yn cydnabod yr angen am newid sylfaenol mewn diwylliant a dull strategol hollol newydd ac mae wedi penodi partner strategol i roi’r arbenigedd a’r adnoddau angenrheidiol sydd eu hangen ar y Cyngor i hyrwyddo agenda drawsnewid sydd ar y cam datblygu cynharaf ar hyn o bryd

16 Yn wleidyddol, mae’r Cyngor o dan arweiniad Annibynnol, ac mae’r Arweinydd cyfredol wedi bod yn ei swydd ers iddo gael ei ethol ym mis Mai 2012. Er nad oes gan y Weinyddiaeth faniffesto penodol, na datganiad o fwriad, mae wedi chwarae rôl hanfodol yn natblygiad Cynllun Integredig Sengl Sir Benfro, ar gyfer 2013-2018 sy’n amlinellu gweledigaeth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol[3] o’r modd y gall y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol gydweithio i wella ansawdd bywyd i ddinasyddion Sir Benfro. Mae’r CIC, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2013, yn nodi gweledigaeth hirdymor ar gyfer y Sir y bwriedir iddi lywio gwaith partneriaeth dros y tymor canolig.

17 **Y Cynllun Gwella ar gyfer 2015/16** (y Cynllun) yw prif ddogfen y Cyngor sy’n edrych i’r dyfodol ac mae’n nodi’r meysydd gwella y bydd yn canolbwyntio arnynt dros y flwyddyn i ddod a’r rhesymeg dros wneud hynny. Mae’r Cynllun sy’n seiliedig ar y chwe chanlyniad allweddol a gynhwysir yn y Cynllun Integredig Sengl, yn nodi pum Amcan Gwella ar gyfer 2015-16 gyda’u nodau cysylltiedig, sydd wedi’u hategu gan fesurau llwyddiant a chamau gweithredu i’w cyflawni:

- a ‘**Gwella Ysgolion** - Byddwn yn herio ac yn cefnogi ein hysgolion i wella deilliannau dysgu yn gyson a helpu plant a phobl ifanc i gyrraedd eu potensial llawnaf, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4 (TGAU).
- b **Plant diamddiffyn** - Byddwn yn meithrin gallu ac adnoddau ysgolion a gwasanaethau i alluogi plant a phobl ifanc ddiamddiffyn i fod yn ddiogel gartref ac yn yr ysgol a chyrraedd eu potensial.
- c **Adfywio a Chanol Trefi** - Byddwn yn galluogi, yn hwyluso ac yn cyflwyno cynlluniau sy’n cyfrannu at economi gystadleuol, cynhyrchiol a chynaliadwy.
- ch **Ad-drefnu Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion** - Byddwn yn parhau i newid y ffordd rydym yn darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion er mwyn gwella effeithlonrwydd a chynaliadwyedd.
- d **Mynd i’r afael â Thlodi** - Yn unol â blaenoriaeth genedlaethol Cymru, byddwn yn mabwysiadu dull cydgysylltiedig ledled Sir Benfro ym mhob adran er mwyn helpu i atal tlodi, helpu pobl i gael gwaith a lleihau effeithiau tlodi.’

3 Y corff sy’n dwyn ynghyd arweinwyr y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol lleol i gymryd camau cyfunol i wella ansawdd bywyd yn Sir Benfro.

18 Tan yn gymharol ddiweddar, roedd gan y Cyngor dîm rheoli sefydlog, gyda Phrif Weithredwr a oedd wedi gwasanaethu ers amser hir ac uwch reolwyr. Fodd bynnag, wynebodd heriau gwasanaeth a llywodraethu sylweddol a gafodd gryn gyhoeddusrwydd a gadawodd y cyn-Brif Weithredwr ym mis Hydref 2014. Cyn ei benodiad i swydd y Prif Weithredwr ym mis Gorffennaf 2015, roedd y Prif Weithredwr cyfredol yn dal swydd fel Pennaeth dros dro y Gwasanaeth Cyflogedig. Rhoddwyd y dasg i'r Prif Weithredwr o gyflwyno cynllun ailstrwythuro sefydliadol o fewn tri mis. Mae'r angen am hyn yn amlwg o ganlyniad i drosiant diweddar o ran swyddi uwch aelodau o'r tîm rheoli.

19 Mae gan y Prif Weithredwr gefnogaeth ei dîm rheoli cyfredol, ei staff a'r rhan fwyaf o'r aelodau etholedig; ac mae ganddo gydberthynas waith adeiladol â'r Arweinydd ac Aelodau o'r Cabinet. Ceir ymdeimlad cynyddol o gyfle yn y Cyngor a rhagweld diwylliant sefydliadol gwell a chyfeiriad newydd, ond ceir rhywfaint o rwystredigaeth hefyd ac ansicrwydd ynghylch y cyfnod cyfredol o newid a beth fydd yn digwydd.

20 Nododd yr aelodau hynny o staff y Cyngor y gwnaethom siarad â hwy fel rhan o'n hasesiad fod amlygrwydd arweinyddiaeth a chyfathrebu, bod yn agored a thryloyw, hyblygrwydd a gwaith tîm yn gwella ac yn cael effaith gadarnhaol ar forâl. Fodd bynnag, mynegodd nifer o aelodau a staff ddiffyg eglurder o ran gweledigaeth a chyfeiriad y Cyngor yn y dyfodol. Er bod dealltwriaeth gyffredinol o'r heriau ariannol a pherfformiad gwasanaethau allweddol a wynebir, roedd safbwyntiau cyson wedi'u datgan yn glir a nododd fod egwyddorion craidd y Cyngor yn 'hen ffasiwn' a bod angen ailystyried a diwygio cynlluniau strategol, yn bennaf oherwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

21 Mae tîm gweinyddu ac arwain newydd y Cyngor yn credu bod y Cyngor bellach yn dod trwy un cyfnod o newid ac yn wynebu cyfnod arall o newid, gan gydnabod yr angen i newid diwylliant yr awdurdod o ddull rheoli awtocrataidd gyda chynlluniau strategol cyfyngedig, i ddull mwy colegol o reoli, yn seiliedig ar fod yn agored a thryloyw a chan ganolbwyntio mwy ar anghenion cymunedau yn Sir Benfro a'r gwasanaethau ar eu cyfer.

22 Mae hwn yn gyfnod tyngedfennol i'r Cyngor. Er bod cyfle i sicrhau cryn welliant, mae'r arweinyddiaeth newydd yn wynebu heriau sylweddol; yn bennaf wrth lwyddo i gyflawni ei flaenoriaethau mewn cyfnod estynedig o galedi ariannol ac, yn hollbwysig, wrth lwyddo i oresgyn niwed i enw da a sicrhau ymddiriedaeth o'r newydd, yn fewnol ac yn allanol. Yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer 2014-15, daethom i'r casgliad bod 'sylw'r Cyngor wedi cael ei dynnu oddi wrth heriau llywodraethu a allai gyfyngu ar ei allu i sicrhau gwelliant yn y flwyddyn sydd i ddod os nad ymdrinnir â hwy'.

23 Wrth wynebu'r heriau hyn, ffurfiwyd Grŵp Trawsnewid o staff o bob rhan o'r sefydliad i ddechrau datblygu 'glasbrint' ar gyfer model gweithredu targed newydd, cost-effeithiol er mai amlygrwydd cyfyngedig oedd i'r agenda drawsnewid yn y Cyngor, ar yr adeg y cynhaliwyd ein hasesiad.

24 Mae'r Cyngor hefyd wedi penderfynu atgyfnerthu ei allu a'i adnoddau drwy benodi partner strategol. Ym mis Hydref 2015, cyhoeddodd y Cyngor ei fod wedi penodi PricewaterhouseCoopers (PWC) i ymgymryd ag archwiliad iechyd o'r sefydliad fel rhan o wasanaeth parhaus ac adolygiad ariannol i gyflawni targedau lleihau'r gyllideb. O gofio nad oes gweledigaeth strategol glir ar hyn o bryd, bydd angen i'r Cyngor liniaru'r risg y bydd y partner strategol yn 'llenwi'r bwlch' cyn iddo ystyried a phenderfynu'n briodol ar ei fodel gweithredu o ddewis ar gyfer y dyfodol.

## Er bod y Cyngor yn dangos ymrwymiad i ymgysylltu â'i ddinasyddion a'u hysbysu am ei flaenoriaethau a'i heriau o ran y gyllideb, nid yw ei drefniadau ar gyfer gwneud hynny hyd yma wedi cysylltu â chroestoriad eang o bobl

25 Un flaenoriaeth gynnar a nodwyd ac y gweithredwyd arni gan y Prif Weithredwr newydd, ynghyd â'r Arweinydd, oedd ymgynghori ac ymgysylltu â dinasyddion ynghylch yr hyn y maent ei gael a'r hyn sydd ei angen arnynt gan y Cyngor, a chyda staff ar newid diwylliannol a sefydliadol.

26 Eleni, lansiodd y Cyngor broses ymgynghori gyhoeddus o'r enw **Mae Cyngor Sir Penfro'n Newid** er mwyn sicrhau y bydd ymgysylltu parhaus â thrigolion a chymunedau lleol ac adborth ganddynt yn llywio'r gwaith o ddatblygu gweledigaeth a gwerthoedd newydd, a phennu amcanion gwella a blaenoriaethau o ran y gyllideb ar gyfer y Cyngor. Cynhaliwyd y gyfres gyntaf o ddigwyddiadau ym mis Chwefror a mis Mawrth eleni, ym mhresenoldeb uwch aelodau o staff a chynghorwyr, gyda chymorth hwyluso gan Cyfranogaeth Cymru.

27 Dywedwyd wrthym gan y Cyngor fod y trafodaethau a gynhaliwyd ym mhob un o'r digwyddiadau hyn yn gadarnhaol ac adeiladol ar y cyfan, er iddynt gael eu beirniadu'n gyhoeddus ychydig gan swyddogion arwain, rheoli a llywodraethu'r Cyngor. O gofio eu hamseriad, yn yr ystyr iddynt gael eu cynnal ar adeg pan oedd materion llywodraethu difrifol ynghylch ymadawiad y cyn-brif weithredwr yn cael sylw yn y wasg leol a chenedlaethol, roedd disgwyl i bryder cyhoeddus o'r fath gael ei fynegi. Yn wir, mae Arweinydd y Cyngor wedi nodi'n glir bod 'y digwyddiadau hyn yn nodi dechrau ein hymdrechion i ymddiried o'r newydd yn yr Awdurdod ac mewn Cynghorwyr lleol.'

28 Codwyd y mater hwn o ran 'sylw negyddol yn y wasg' yn rheolaidd gan staff ac aelodau yn ystod ein gwaith asesu corfforaethol. Ymhlith y mwyafrif o'r aelodau a'r staff a gyfwelwyd gennym mynegwyd rhwystredigaeth glir ynghylch yr hyn a oedd yn bortread dethol a negyddol o'r Cyngor yn y cyfryngau yn eu barn hwy, ac nad oedd y Cyngor yn ddigon rhagweithiol wrth hyrwyddo'r gwaith da y mae'n ei wneud. Roedd hyn yn amlwg yn cael effaith andwyol ar forâl yn y Cyngor. Er bod y tîm arwain o'r farn nad oedd rhai o'r adroddiadau yn y wasg wedi bod yn hollol gywir, ni wnaed unrhyw ymdrech i 'gywiro' datganiadau yn y cyfryngau. Yn hytrach, mabwysiadwyd dull o 'ddod drwy'r cyfnod anodd' a dechrau gwrthsefyll negyddoldeb drwy newid ymddygiad, arfer 'dull llywodraethu da', a defnyddio datganiadau rhagweithiol i'r wasg, a sianelau cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo cyflawniadau'r Cyngor.

29 Cynhaliwyd cyfres arall o ddigwyddiadau **Mae Cyngor Sir Penfro'n Newid** yn ystod mis Hydref 2015 gan roi cyfle i bobl ystyried y pynciau yn y digwyddiadau cynharach a gynhaliwyd yn fwy manwl. Roedd y pynciau hyn yn cynnwys:

a Sut y caiff arian ei wario a sut y gwneir arbedion

b Democratiaeth leol a gwneud penderfyniadau

c Ein Trefi

ch Gwybodaeth a chyfathrebu

30 Er bod y Cyngor yn dangos ymrwymiad i ymgysylltu â'i ddinasyddion a'u hysbysu am ei flaenoriaethau a'i heriau o ran y gyllideb, nid yw ei drefniadau ar gyfer gwneud hynny hyd yma wedi cysylltu â chroestoriad eang o bobl. Ar yr adeg y cynhaliom ein hasesiad, nid oedd y gynulleidfa mewn digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus wedi bod yn gynrychioliadol o'r holl grwpiau poblogaeth sy'n byw yn y sir. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo wneud mwy i ymgysylltu â'r grwpiau 'anoddach i'w cyrraedd', er enghraifft, y bobl ifanc, y rhai mewn tlodi, a grwpiau â buddiant arbennig.

31 Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal arolwg cenedlaethol er mwyn cael barn pobl Cymru ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys iechyd, addysg a gwasanaethau lleol. Yn arolwg 2014-15, roedd 47 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno bod y Cyngor 'yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel.' Roedd hyn ychydig yn is na chyfartaledd Cymru a gosododd y Cyngor yn y 15fed safle o blith y 22 o awdurdodau unedol yng Nghymru. Dangosodd yr un arolwg mai dim ond 33 y cant o'r ymatebwyr (yn yr 17eg safle) oedd yn cytuno bod y Cyngor yn 'gwneud popeth posibl i wella fy ardal leol'.

32 Er mwyn ategu'r wybodaeth hon a chasglu mwy o wybodaeth ansoddol gan ddinasyddion Sir Benfro i lywio ein hasesiad corfforaethol, gwnaethom ymgysylltu drwy gyfrwng arolwg electronig, **MyPembrokeshire**[4], i gael dealltwriaeth well o farn pobl am eu Cyngor a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Roedd y cydbwysedd cyffredinol o safbwyntiau cadarnhaol a negyddol a fynegwyd gan ymatebwyr mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn gyson â chanfyddiadau'r arolwg cenedlaethol; nododd llawer o'r ymatebwyr fod gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu yn dda, ond roedd sylwadau'n fwy negyddol ynghylch priffyrdd, cynnal a chadw ffyrdd a chysylltiadau trafnidiaeth; ad-drefnu ysgolion a newidiadau i wasanaethau llyfrgelloedd. Er bod ymatebwyr yn gadarnhaol ynghylch y gwasanaethau, nid oeddent, yn gyffredinol, yn eglur ynghylch pa wasanaethau na pham; fodd bynnag, roedd yr ymatebwyr a oedd yn fwy negyddol yn awyddus i fynegi eu barn a chyfeiriodd llawer yn benodol at benderfyniadau cynllunio gwael; adfywio trefi, a thoriadau mewn gwasanaethau rheng flaen yn ymwneud â gofalu am y rhai sy'n agored i niwed. Yn ddiddorol ddigon, prin iawn oedd y dinasyddion a gyfeiriodd at y dreth gyngor isel fel rhywbeth cadarnhaol, ac roedd yn well

4 Ein harolwg **MyPembrokeshire**: Fel rhan o'r gwaith o sicrhau bod dinasyddion Cyngor Sir Penfro yn cael cyfle i fynegi barn yn ein Hasesiad Corfforaethol, derbyniwyd sylwadau ar-lein rhwng 20 Mai 2015 a 20 Mehefin 2015, mewn perthynas â barn pobl am eu Cyngor a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Cawsom bron 500 o ymatebion a helpodd i lywio casgliadau'r adroddiad hwn.

ganddynt fynegi'r farn y byddent yn hoffi cael gwell gwasanaethau rheng flaen i ddinasyddion a'r rheini sydd â'r angen mwyaf ac y byddent yn barod i dalu treth gyngor uwch i'w hariannu.

33 O ran ymgynghori â staff, cynhaliodd yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr newydd naw sesiwn ymgynghori ym misoedd Mai, Mehefin a Medi eleni, a fynychwyd gan dros 450 o gyflogeion.

34 Gofynnwyd i staff am eu barn ynghylch sut mae'r Cyngor yn gweithredu ar hyn o bryd, er mwyn cael safbwynt wedi ei fapio a dealltwriaeth o farn staff; a chan edrych i'r dyfodol, gofynnwyd i staff nodi beth y gallai'r Cyngor ei wneud yn well. Cafodd y wybodaeth a gasglwyd o'r sesiynau ei rhannu'n naw thema - cyfathrebu; strwythurau sefydliadol; tâl a chydnabyddiaeth; cynllunio'r gweithlu; morâl staff; canfyddiad y cyhoedd; contractwyr; disgwyliadau ac ymddygiad cwsmeriaid; ac aelodau etholedig. Gan edrych i'r dyfodol roedd staff hefyd yn teimlo bod angen gwella TG er mwyn cefnogi ffyrdd mwy effeithiol ac arloesol o weithio a chydweithio mwy o fewn y Cyngor a'r tu allan iddo.

35 O ganlyniad i'r gwaith ymgysylltu hwn caiff y tîm arwain ei annog gan arbenigedd ar lawr gwlad a syniadau arloesol gan y staff i gwtogi ar gostau, y gellir eu defnyddio er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r her ariannol a wynebir gan y Cyngor. Mae'r adborth yn cael ei gymhathu a chaiff ei ddefnyddio i ddatblygu cynllun gweithredu. Ym mis Medi 2015, cyfarfu'r Tîm Rheoli Corfforaethol i ystyried y themâu sy'n deillio o'r ymarferion ymgysylltu â thrigolion a staff a dechrau nodi gwerthoedd sefydliadol newydd y Cyngor.

36 Er bod y gydberthynas rhwng yr Undebau Llafur a'r Cyngor wedi bod yn anodd, mae'r Undebau Llafur yn gynyddol optimistig yn dilyn y newid yn y Prif Weithredwr y bydd y cydberthnasau yn gwella dros amser.

# Mae gwendidau mewn trefniadau llywodraethu a’u dull cymhwyso yn arwain at aneffeithlonrwydd, atebolrwydd gwael a diffyg tryloywder wrth wneud penderfyniadau

## Mae diffyg dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau yn gwanhau’r dulliau llywodraethu ac atebolrwydd

37 Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi’r cylch gorchwyl i bwyllgorau, yn ogystal â’r rheolau gweithdrefnol gan gynnwys rheolau gweithdrefnol ariannol a chontract ac mae hefyd yn cynnwys protocolau ar gyfer aelodau a chodau ymddygiad swyddogion yn ogystal â phrotocolau ar gydberthnasau rhwng Aelodau a Chyflogeion.

38 Fodd bynnag, yn ymarferol gwelsom rywfaint o ddryswch ynghylch priod gylch gorchwyl pwyllgorau craffu. Er enghraifft, codwyd yr un mater mewn mwy nag un pwyllgor craffu. Gall hyn fod yn rhannol oherwydd prinder manylion yng nghylch gorchwyl Pwyllgorau Craffu’r Cyngor. Hefyd, nid ydym yn glir pam bod y Cyngor o’r farn bod angen cael Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn ogystal â Phwyllgor Archwilio. O gofio bod Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi ymgynghori[5] ar ei chynnig i ddiwygio Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i egluro cyfrifoldebau a chylch gwaith y Pwyllgorau Archwilio, eu hailenwi yn Bwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio, ac ehangu eu haelodaeth annibynnol, efallai y bydd y Cyngor am ystyried adolygu ac integreiddio swyddogaethau’r ddau bwyllgor fel rhan o’i adolygiad Cyfansoddiadol cyfredol.

39 Yn ein harsylwadau o gyfarfodydd y Pwyllgor Craffu, gwelsom fod yr Aelodau ar y cyfan yn dangos parodrwydd i herio, a gwybodaeth am y pwnc a oedd yn cael ei drafod. Ceir rhai enghreifftiau hefyd o ganlyniadau cadarnhaol o’r broses graffu, gan gynnwys rhai enghreifftiau o alw i mewn sydd wedi arwain at newidiadau i benderfyniadau’r Cabinet. Fodd bynnag, nid yw rolau aelodau a swyddogion bob amser yn cael eu cyflawni’n effeithiol yn y broses graffu. Mae hyn, yn rhannol, am fod diben a rôl y broses graffu wrth ystyried llawer o eitemau yn aneglur. Heb ddisgwyliad clir o ran craffu, a heb unrhyw ganlyniad clir, nid yw’r broses graffu yn ychwanegu fawr ddim gwerth at y gwaith o ystyried yr eitemau hyn.

40 Gwelsom fod cynllun pwyllgorau craffu yn glir ac mae’r trefniadau eistedd mewn perthynas ag Aelodau’r Cabinet yn cefnogi atebolrwydd, gyda diffiniad clir rhwng y Cabinet ac Aelodau Pwyllgorau. Fodd bynnag, er bod gan Aelodau’r Cabinet wahoddiad sefydlog i fynychu pob cyfarfod craffu, anaml iawn y gofynnir cwestiynau iddynt neu y cânt eu dwyn i gyfrif. Yn hytrach maent yn bresennol yn ôl pob golwg fel sylwedyddion, nad yw felly yn arddangos yn glir a chyhoeddus eu cyfrifoldeb a’u rôl o ran cael eu dwyn i gyfrif.

5 Llywodraeth Cymru, Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni – Papur Gwyn, **Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol**, Chwefror 2015

41 Nid yw'r Cyngor wedi sicrhau bod aelodau a swyddogion yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llawn wrth lywodraethu'r awdurdod. Gwelsom dystiolaeth o fylchau, er enghraifft, yng ngwybodaeth weithdrefnol rhai Aelodau mewn perthynas â'u rolau penodol. Nid yw'n glir ychwaith, er enghraifft, pwy sy'n gyfrifol am gyflwyno canfyddiadau ar ran pwyllgorau craffu naill ai i'r Weithrediaeth neu yn ôl i'r Pwyllgor. Gwelsom nad oedd cyfrifoldeb nac atebolrwydd swyddogion ar gyfer swyddogaethau llywodraethu allweddol, fel cymorth craffu a hyfforddiant a datblygiad aelodau, yn glir ychwaith yn ymarferol.

## Nid yw'r broses gwneud penderfyniadau yn gyson dryloyw

42 Mae uchelgeisiau datganedig y Cyngor o wella ansawdd gwasanaethau a chyfleusterau er budd dinasyddion Sir Benfro, at ei gilydd, yn cael eu rhannu ar draws pob grŵp gwleidyddol. Fodd bynnag, mae llywyddu dros faterion llywodraethu cythryblus a heriol yn y gorffennol agos wedi arwain at sefyllfa lle nad yw rhai o'r aelodau yn ymddiried yn yr Arweinydd a'r Cabinet, a chanfyddir bod diffyg natur agored a thryloywder yn parhau mewn perthynas â phrosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor, sydd hefyd wedi effeithio ar gydberthnasau rhwng aelodau a swyddogion. Mae hefyd yn glir o ganfyddiadau ein harolwg **MyPembrokeshire**, fod materion ymddiriedaeth a thryloywder o bryder i nifer o'r dinasyddion hynny a ymatebodd i'n cwestiwn '**Beth yw'ch barn chi o'r Cyngor?**'

43 Mae **Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2014-15** y Cyngor, a gymeradwywyd ym mis Medi 2015, yn nodi mai'r gydberthynas rhwng aelodau a swyddogion yw un o'r materion llywodraethu pwysicaf, ac mae'r flaenoriaeth uchaf ar gyfer gwella yn nodi y gallai ymddygiad effeithio ar y broses gwneud penderfyniadau, a allai arwain at beidio â chyflawni amcanion a dirywiad mewn perfformiad. Mae camau gweithredu allweddol a nodwyd gan y Cyngor, i'w gweithredu yn ystod 2015-16 er mwyn lleddfu'r mater, yn cynnwys diffinio rolau aelodau a swyddogion yn glir, protocol rhannu gwybodaeth a briffiadau rheolaidd i aelodau ar faterion hollbwysig.

44 Yn dilyn arsylwi cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn ystod ein gwaith maes ym mis Ebrill 2015, daethom i'r casgliad bod rhywfaint o gynnydd cadarnhaol yn cael ei wneud yn hyn o beth. Cafodd yr hysbysiadau cynigion a gyflwynwyd eu trafod yn llawn ac mewn modd ystyrlon. Seiliwyd y cyfarfod ar batrwm cyfarfod busnes, a chanolbwyntiodd yn briodol ar y penderfyniadau dan sylw, a bu'r Arweinydd ac Aelodau o'r Cabinet yn arwain y cyfarfod gan gyflwyno materion, a hwyluso trafodaeth a dadl lawn. Cafodd pwyntiau allweddol a godwyd eu hegluro neu, lle roedd hynny'n briodol, cofnodwyd cytundeb i'w hystyried.

45 Fodd bynnag, cyfeiriodd nifer o swyddogion ac aelodau y siaradwyd â hwy at enghreifftiau cyson, ond prin, lle yr ystyriwyd bod yr ymddygiad yn amhriodol neu nad oedd o gymorth. Er bod Cyfansoddiad y Cyngor yn glir ynghylch yr ymddygiad y mae disgwyl i aelodau a swyddogion etholedig ei ddangos, credwn y gallai'r disgwyliad hwn gael ei reoli'n fwy rhagweithiol gan y Pwyllgor Safonau gyda chymorth ychwanegol gan y Swyddog Monitro.

46 Mae agweddau eraill ar drefniadau llywodraethu'r Cyngor nad ydynt yn cefnogi tryloywder cyson wrth wneud penderfyniadau. Er enghraifft, mae diffyg proses glir i bwyllgorau craffu adrodd i'r Cabinet, ac i'r Cabinet ymateb wedyn i adroddiadau craffu. Gwelsom hefyd nad yw blaenraglenni gwaith ar gyfer pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a'r Cabinet bob amser yn hygyrch iawn ar wefan y Cyngor a'u bod yn cynnwys manylion cyfyngedig ynghylch natur a diben eitemau sydd ar droed.

47 Yn ddiweddar, atgyfnerthodd y Cyngor y trefniadau er mwyn sicrhau bod adroddiadau i'r Cabinet yn cynnwys ymrwymiadau cyfreithiol ac ariannol, er nad yw'r adroddiadau craffu nac adroddiadau'r Cyngor bob amser yn dilyn y broses hon. Fodd bynnag, ceir enghreifftiau weithiau o eitemau ar yr agenda yn cael eu cynnwys ar agendâu pwyllgorau fel diweddariadau 'llafar' ac nid oes unrhyw adroddiadau ysgrifenedig yn atodedig. Nid yw'r ymarfer hwn yn dryloyw gan nad yw'n awgrymu ymlaen llaw natur benodol yr eitem, ffynhonnell unrhyw wybodaeth berthnasol nac unrhyw argymhellion cymwys a gaiff eu hystyried. Nid yw ychwaith, er enghraifft, yn caniatáu sylwebaeth gyfreithiol nac ariannol ar yr eitemau i'w trafod.

48 Gwelsom sawl adroddiad i bwyllgorau craffu a'r Cyngor nad oeddent yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at bapurau cefndir. Gwelsom hefyd enghreifftiau o rai adroddiadau lle nad oedd digon o wybodaeth i lywio'r broses gwneud penderfyniadau yn effeithiol, gan gynnwys rhai adroddiadau pwyllgorau craffu nad ydynt yn nodi'r rhesymeg na'r sail tystiolaeth ar gyfer eu hargymhellion i'r Weithrediaeth.

49 Mae pwyllgorau craffu'r Cyngor wedi ymgysylltu â sefydliadau allanol ac mae'r Cyngor wedi datblygu ffordd o alluogi'r cyhoedd i awgrymu pynciau i graffu arnynt a/neu roi eu barn ar eitemau sy'n cael eu hystyried gan bwyllgorau craffu. Fodd bynnag, er bod y Cyngor yn cydnabod bod angen cynnwys y cyhoedd mewn materion craffu, gan gynnwys mewn adroddiadau blynyddol blaenorol gan bwyllgorau craffu, ni wnaed fawr ddim cynnydd yn hyn o beth. Er enghraifft, nid yw'r Cyngor wedi ymgysylltu'n rhagweithiol â'r cyhoedd fel rhan o ymholiadau craffu.

50 Gwelsom hefyd nad yw'r cofrestri o benderfyniadau a wneir gan Uwch Swyddogion ar gyfer rhai ardaloedd gwasanaeth wedi cael eu diweddaru'n gyson ar wefan y Cyngor, ac o blith y rhai a restrir mae lefel y wybodaeth a ddarperir yn amrywio. Mae diffyg eglurder ynghylch p'un a yw'r penderfyniadau a ddirprwyir i swyddogion yn cael eu galw i mewn ai peidio, sef sefyllfa sy'n debygol o arwain at ddryswch.

## Nid oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar waith i nodi a mynd i'r afael â gwendidau ym maes llywodraethu

51 Mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd wrth ymateb i wendidau a nodwyd yn flaenorol yn ei drefniadau craffu, fel penodi tîm cymorth craffu a newidiadau i drefniadau eistedd mewn pwyllgorau craffu. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi mynd i'r afael â nifer o'r camau gweithredu yn ei Gynllun Gweithredu a ddatblygwyd yn dilyn adolygiad o'i drefniadau craffu gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus (adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014), er enghraifft, i wella blaenraglenni gwaith a gwella rôl y tîm cymorth craffu.

52 Nodwyd cryn rwystredigaeth yn y Cyngor mewn perthynas â'r cynnydd araf a wneir i gwblhau adolygiad o'i Gyfansoddiad sydd wedi bod yn mynd rhagddo ers dwy flynedd. Ar ôl penodi ymgynghorydd allanol i gyflymu pethau, mae Cyfansoddiad drafft diwygiedig wrthi'n cael ei ystyried gan y Swyddog Monitro a'r bwriad yw argymell y dylai gael ei fabwysiadu yn y dyfodol agos. Yn y cyfamser, mae gwelliannau bwriadedig i drefniadau llywodraethu wedi'u gohirio am y tro. Er enghraifft, er bod nifer dda yn bresennol mewn rhai cyfarfodydd cyhoeddus o'r Cyngor, nid yw aelodau o'r cyhoedd yn gallu gofyn cwestiynau eto.

# Nid oes gan y Cyngor ddigon o ffocws ar ei swyddogaethau corfforaethol strategol allweddol i gael sicrwydd ei fod yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau

## Mae cryn le i wella trefniadau cynllunio ariannol, rheoli a gwneud penderfyniadau'r Cyngor er mwyn parhau i wasanaethu'r Cyngor yn dda wrth ymdrin â'r heriau ariannol y mae'n eu hwynebu yn 2015-16 a thu hwnt

53 Yn ein **Hadroddiad Asesu Cynllunio Ariannol**, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2014, nodwyd bod gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol cadarn ar y cyfan ond braidd yn draddodiadol sydd wedi ateb y diben, ac mae'n datblygu trosolwg strategol tymor hwy er nad yw'r aelodau yn cael eu cynnwys digon yn y gwaith o gynllunio a monitro'r cynlluniau lleihau costau/cynhyrchu incwm. Daethom i'r casgliad hwn o ganlyniad i'r canfyddiadau canlynol:

a Mae gan y Cyngor record dda o gyflawni mesurau i leihau costau a nodwyd yn ystod y flwyddyn yn erbyn y camau gweithredu cynlluniedig a gymeradwywyd ganddo, er na chyflwynodd adroddiadau yn erbyn cynigion arbedion penodol a'i gwnaeth yn anodd nodi'r meysydd a gyflawnodd dargedau lleihau costau a'r meysydd na wnaethant hynny.

b Mae fframwaith corfforaethol y Cyngor ar gyfer cynllunio ariannol wedi ateb y diben, er y gallai cysylltiadau rhwng cynlluniau ariannol a chynlluniau gwella fod yn fwy eglur; mae'r Cyngor bellach yn ymestyn ei ddull gweithredu gan ddarparu trosolwg mwy strategol sy'n fwy addas ar gyfer yr heriau ariannol cynyddol a wynebir ganddo.

c Mae trefniadau rheoli a rheolaeth ariannol y Cyngor yn cael eu rheoli'n effeithiol, er i broblem godi yn 2014 a ohiriodd ein proses o gymeradwyo cyfrifon 2013-14 ac a arweiniodd at gynnwys paragraff pwysleisio mater yn ein hadroddiad archwilio.

ch Mae trefniadau llywodraethu ariannol y Cyngor ar gyfer adolygu a herio perfformiad yn ddigonol ond nid yw'r cysylltiadau rhwng perfformiad ariannol a pherfformiad gwasanaethau yn eglur. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd asesu'r gwerth am arian a ddarperir gan wasanaethau'r Cyngor.

d Nid yw'r Aelodau yn cael eu cynnwys digon yn y gwaith o fonitro cynnydd tuag at gyflawni gostyngiadau mewn costau a gynlluniwyd. Nid ydynt ychwaith yn cael digon o wybodaeth am feysydd sy'n perfformio'n wael, gan gyfyngu ar eu gallu i herio gwasanaethau. Fodd bynnag, mae cynlluniau arbedion cyfredol y Cyngor ar gyfer 2014-15 yn addas at y diben ac maent yn cael eu rheoli'n effeithiol ar y cyfan.

dd Mae cynlluniau arbedion effeithlonrwydd ar waith gan y Cyngor ar gyfer 2015-16 a 2016-17 ond mae toriadau ariannol newydd wedi rhoi pwysau ychwanegol i nodi arbedion pellach a bydd angen gwneud rhai penderfyniadau anodd.

54 Roedd ein hadroddiad yn cynnwys pedwar cynnig ar gyfer gwella i'w hystyried gan y Cyngor, a phe caent eu rhoi ar waith, byddent yn arwain at gysylltiadau cliriach rhwng gwaith cynllunio ac adrodd ar faterion ariannol a gwella gwasanaethau, gwybodaeth reoli ariannol well a chynnwys Aelodau yn fwy wrth fonitro a herio cynnydd yn erbyn y cynlluniau arbed. Rydym yn dilyn trywydd y gwaith hwn ar gyfer 2015-16.

55 Yn yr un modd, cyflawnodd y Cyngor ei sefyllfa alldro gyllidebol ragamcanol ar gyfer blwyddyn ariannol 2014-15, gan wario £207.214 miliwn yn erbyn cyllideb ddiwygiedig o £207.256 miliwn. Nododd y Cyngor yn ei adroddiad Monitro Alldro ar gyfer 2014-15 (Gorffennaf 2015) ei fod wedi cyflawni ei darged lleihau costau o £12.9 miliwn. Fodd bynnag unwaith eto, ni ddarparwyd manylion am yr arbedion 'fesul llinell' a gyflawnwyd yn erbyn y cynllun a'i gwnaeth yn anodd nodi meysydd a gyflawnodd dargedau lleihau costau a'r rhai na wnaeth hynny.

56 Nodwn, ym mis Medi 2015, i'r Cabinet gael adroddiad diweddaru/monitro ar gyfer Chwarter 1 (Ebrill i Fehefin) 2015-16. Mae'r fformat a'r cynnwys wedi cael eu diwygio gan swyddogion er mwyn integreiddio dulliau adrodd a monitro'r gyllideb yn well, rheoli risgiau i fusnes a data ar berfformiad ar gyfer 2015-16 a thu hwnt. Mae'r adroddiad yn cynnwys ystod eang o wybodaeth gan gynnwys refeniw ac alldro cyllideb cyfalaf fesul gwasanaeth, targedau lleihau costau cytûn fesul cyfarwyddiaeth (gyda system raddio Coch, Oren, Gwyrdd o ran eu tebygolrwydd asesedig o gyflawni erbyn diwedd y flwyddyn), risgiau corfforaethol a nodwyd, a dadansoddi perfformiad mewn perthynas â mesurau cenedlaethol a lleol. Cefnogir ac ategir y wybodaeth gan sylwebaeth ysgrifenedig a ddarperir gan Gyfarwyddwyr, sy'n cynnwys cyfeiriad at gynnydd wrth gyflawni amcanion gwella.

57 Dim ond y penderfyniad i dderbyn yr adroddiad monitro a gofnodir yng nghofnodion cyfarfod y Cabinet ym mis Medi. Ni chofnodir y drafodaeth ar y cynnwys, fodd bynnag, gan fod hyn yn un o blith llawer o eitemau ar agenda cyfarfod a barodd llai na dwy awr, mae'n annhebygol y byddai unrhyw drafodaeth wedi bod yn un eang. O fewn yr adroddiad mae'r Prif Swyddog Cyllid yn cydnabod, gan mai hwn yw'r adroddiad cyntaf yn y fformat hwn, fod lefel yr integreiddio yn gyfyngedig ond disgwylir i hyn ddatblygu dros amser.

58 Mae'r wybodaeth a gaiff ei dwyn ynghyd yn yr adroddiad monitro chwarterol hwn yn ffordd ddefnyddiol o hwyluso prosesau craffu a herio mwy effeithiol er mwyn sicrhau gwelliant. Fodd bynnag, er mwyn i hyn helpu i gyflawni'r nod, bydd angen i'r Cyngor ystyried ac egluro:

- a y grwpiau o aelodau (er enghraifft: y Cabinet; y Pwyllgor Archwilio; y Pwyllgor Craffu) y mae'n atebol iddynt;
- b diben yr eitem ar yr agenda a rôl y grŵp mewn perthynas â hi;
- c y penderfyniadau neu'r argymhellion sy'n ofynnol; a
- ch yr amser ac unrhyw adnoddau cymorth a neilltuir i ystyried hyn.

59 Yn ogystal â darparu ei wasanaethau o fewn y gyllideb, mae angen i'r Cyngor fynd i'r afael â diffygion rhagamcanol yn ei gyllideb dros y blynyddoedd ariannol nesaf drwy arbedion effeithlonrwydd cynlluniedig ac ail-lunio gwasanaethau. Hyd yma, dim ond cynnydd cyfyngedig a wnaed i ddatblygu Cynllun Ariannol Tymor Canolig cynhwysfawr. Ar yr adeg y cynhaliwyd ein gwaith maes asesu corfforaethol ym mis Ebrill 2015, rhoddwyd cyfres o daenlenni i ni a oedd yn cynrychioli **Cynllun Ariannol Tymor Canolig Cryno** yn cwmpasu'r cyfnod o bum mlynedd rhwng 2015-16 a 2019-20. Roedd hwn yn cynnwys dadansoddiad technegol, rhifyddol (a oedd, yn ôl pob golwg, yn seiliedig ar dybiaethau rhesymol) a nododd flaenragamcanion ar gyfer pob blwyddyn yng Nghyllideb gyffredinol y Cyngor, gan ragweld cyllid gan Lywodraeth Cymru, a'r lefel ganlyniadol o ostyngiadau angenrheidiol mewn costau, gan dybio y byddai cynnydd yn y Dreth Gyngor o 4.5 y cant bob blwyddyn. Nid oedd yn cynnwys rhagor o wybodaeth, er enghraifft, am y strategaeth i'w dilyn er mwyn cyflawni'r gostyngiadau angenrheidiol mewn costau.

60 Mae'r **Cynllun Ariannol Tymor Canolig Cryno** yn nodi maint y gostyngiadau mewn costau/targedau effeithlonrwydd y mae angen i'r Cyngor eu cyflawni er mwyn iddo bennu cyllideb fantoledig bob blwyddyn (gan dybio y bydd cynnydd blynyddol yn y Dreth Gyngor o 4.5 y cant) ac, yn gynyddol, maent yn arwain at ostyngiad yng nghyllideb refeniw y Cyngor o dros £50 miliwn dros y pum mlynedd nesaf (gweler Arddangosyn 1).

Arddangosyn 1: Targedau Lleihau Costau Cyngor Sir Penfro hyd at 2019-20

| Crynodeb o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig | 2015-16 £ miliwn | 2016-17 £ miliwn | 2017-18 £ miliwn | 2018-19 £ miliwn | 2019-20 £ miliwn |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwlch a nodwyd yn y gyllideb | 12.3 | 15.4 | 11.4 | 10.8 | 10.9 |
| Cynnydd yn y Dreth Gyngor | 2.2 | 1.9 | 2.0 | 2.1 | 2.2 |
| Targedau Lleihau Costau Blynyddol | 10.1 | 13.5 | 9.4 | 8.7 | 8.7 |
| Targed lleihau costau cronnol | 10.1 | 23.6 | 33.0 | 41.7 | 50.4 |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Penfro: Crynodeb o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig

61 Roedd adroddiad cyllideb y Cabinet i'r Cyngor llawn ar 5 Mawrth 2015 yn cynnwys adran o'r enw Cynllun Ariannol Tymor Canolig Cryno 2015-16 i 2017-18 h.y., dros gyfnod o dair blynedd yn nodi gwybodaeth debyg ond mewn ffordd 'haws ei defnyddio'. Nododd adroddiad y gyllideb lefel gyfyngedig o fanylion o ran y ffordd y bwriadwyd i'r targed lleihau costau/effeithlonrwydd costau o £10.1 miliwn ar gyfer 2015-16 gael ei gyflawni fesul gwasanaeth/prosiect, er i'r cynigion hyn gael eu cyflwyno i aelodau a phwyllgorau craffu a'u trafod cyn y penderfyniad ar y gyllideb.

62 Hyd yma, nid oes unrhyw fanylion ynghylch sut y cyflawnir targedau lleihau costau/effeithlonrwydd costau ar gyfer blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, nododd adroddiad y gyllideb: 'Mae darpariaeth y rhaglen effeithlonrwydd/lleihau costau gan £12.9m ar gyfer 2014-15 wedi bod yn heriol. Mae maint yr her o'n blaenau yn golygu bydd angen canfod, datblygu a darparu llu o ostyngiadau/arbedion mewn costau o fewn cyfnod byr, er mwyn sicrhau cyflawniad o arbedion flwyddyn lawn. Bydd pob gwasanaeth y Cyngor, naill ai sy'n wynebu cwsmeriaid neu'n gefnogol, yn cael ei ystyried er mwyn canfod os oes modd o gyflawni arbedion neu leihad mewn costau.'

63 Nododd **Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2014-15** y Cyngor fod Heriau Ariannol yn Fater Llywodraethu o Bwys ac mae'n nodi mai'r camau gweithredu allweddol ar gyfer 2015-16 yw:

a cwblhau Cynllun Ariannol Tymor Canolig pum mlynedd 2015-16 i 2019-20;

b nodi a chyflawni gostyngiadau mewn costau/arbedion effeithlonrwydd er mwyn sicrhau cyllidebau cytbwys yn y dyfodol;

c gweithio gyda phartner strategol; ac

ch ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu ag Aelodau, cyflogeion a'r gymuned ynghylch y gyllideb.

64 Cynhaliodd y Cyngor Seminar i Aelodau ym mis Medi 2015 i ddechrau'r broses o rannu gwybodaeth a thrafod materion yn ymwneud â Chyllideb 2016-17 a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Deallwn y bydd arweinwyr grwpiau yn mynychu dwy sesiwn arall, y gyntaf er mwyn cael cynigion manwl 'mewn egwyddor' (gan swyddogion) i fantoli'r gyllideb, a'r ail i gael eu cynigion hwy i wneud yr un peth.

65 Credwn fod cryn gyfle, a pheth brys i ddatblygu ymhellach drefniadau cynllunio a rheoli ariannol y Cyngor er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i wasanaethu'r Cyngor yn dda o gofio maint yr heriau ariannol a nodwyd y tu hwnt i 2015-16:

a er bod Cynllun Ariannol Tymor Canolig Cryno'r Cyngor yn fras yn addas at y diben o ran nodi'r 'bwlch' yn y gyllideb, nid yw'r Cyngor wedi datblygu gweledigaeth hirdymor eto na strategaeth gydgysylltiedig ar gyfer llunio

gwasanaeth amgen fel fframwaith i ddatblygu'r newidiadau radical mewn gwasanaethau a ddarperir i adlewyrchu gostyngiadau a ragwelir yng nghyllid llywodraeth leol;

b mae'r Cyngor yn monitro gwariant y gyllideb yn effeithiol ond dim ond yn ddiweddar y cyflwynodd 'dull adrodd integredig' ac ni chynhaliwyd unrhyw broses graffu na herio gadarn o ran cyflawni gostyngiadau/arbedion penodol mewn costau neu unrhyw effaith ddilynol ar safonau gwasanaeth a chanlyniadau hyd yma;

c mae'r cynlluniau arbedion cyfredol yn canolbwyntio'n bennaf ar leihau costau yn hytrach nag effeithiolrwydd costau a gwerth am arian, ac mae'r arbedion pellach sy'n ofynnol yn ystod y flwyddyn sef £13.5 miliwn yn 2016-17 a £9 miliwn y flwyddyn mewn blynyddoedd dilynol eto i'w diffinio; a

ch dim ond hyblygrwydd cyfyngedig a gynigir gan gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy cyffredinol i gynnal cyllideb gytbwys os bydd cynlluniau arbed yn brin neu os bydd llithriant sylweddol ar y gyllideb, neu i gefnogi unrhyw fentrau 'buddsoddi i arbed'

66 Deallwn pam bod y Cyngor wedi penderfynu bod angen comisiynu cymorth allanol er mwyn helpu i lunio, cydgysylltu a chyflawni ei raglen drawsnewid. Bydd angen iddo hefyd ddatblygu'r setiau sgiliau a gallu aelodau ac uwch reolwyr i herio perfformiad ariannol a gwasanaeth yn gadarn, a sicrhau bod ei drefniadau llywodraethu yn ddigon cadarn i wneud penderfyniadau da ac amserol.

## Mae gan y Cyngor bortffolio eiddo cadarn ac mae'n cydnabod yr angen i ddatblygu dull mwy strategol o reoli ei asedau er mwyn cefnogi blaenoriaethau gwella a sicrhau gwerth am arian. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn rhy araf

67 Mae gan y Cyngor bortffolio eiddo cryf ar amrywiaeth o asedau, er enghraifft maes awyr, ffermydd, harbyrau, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd, ysgolion ac eiddo masnachol a phreswyl. Mae cynllun rheoli asedau'r Cyngor yn nodi cyfanswm o 1,680 o asedau eiddo, y disgrifir 500 ohonynt yn 'adeiladau o bwys' gan y Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys asedau gweithredol fel canolfannau hamdden, ysgolion, llyfrgelloedd, canolfannau croeso, adeiladau gweinyddol a chanolfannau gwasanaeth cwsmeriaid. Yn ogystal ceir tua 6,800 o dai cyngor. Caiff y rhain eu cynnal a'u cadw'n dda ar y cyfan, ac maent wedi elwa ar flynyddoedd o waith cynnal a chadw cynlluniedig a chylchol a buddsoddiad ariannol, ac mae gan y Cyngor hanes da o fonitro a rheoli allyriadau $CO_2$.

68 Mae Strategaeth Tir ac Adeiladu Gorfforaethol (AMP) wedi bod ar waith ers 2013, ac fe'i cefnogir gan raglen o waith cyfalaf y bwriedir iddi sicrhau y caiff ei adeiladau a'i wasanaethau eu cynnal a'u cadw'n briodol.

69 Mae'r Cyngor yn ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol wedi nodi rheoli asedau fel mater llywodraethu o bwys. Dim ond barn sicrwydd gyfyngedig ar reoli asedau y mae adolygiadau archwilio mewnol am ddwy flwyddyn yn olynol wedi ei rhoi. Yn y ddwy flwyddyn, mae Swyddfa Archwilio Cymru, fel rhan o'i harchwiliad allanol o'r asedau sefydlog yn y Datganiad Cyfrifon, wedi ei gwneud yn ofynnol i nifer sylweddol o newidiadau gael eu gwneud i brisiadau. Mae'r Cyngor wedi nodi angen i'r gwasanaeth eiddo a rheoli asedau weithio gyda'r gwasanaeth Cyllid, y Pwyllgor Archwilio a Swyddfa Archwilio Cymru i fynd i'r afael â'r gwendidau rheoli mewnol a nodwyd.

70 Mae'r dull cyfredol o reoli asedau yn un trawsbynciol ar draws cyfarwyddiaethau. Er enghraifft, cyfrifoldeb y cyn-Ddirprwy Brif Weithredwr yw rheoli cyfleusterau ac ysgolion yn yr 21ain ganrif; y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am ganolfannau hamdden; y Cyfarwyddwr Addysg sy'n gyfrifol am adeiladau ysgol newydd; a goruchwylir gwaith cynnal a chadw cynlluniedig gan y Cyfarwyddwr Trafnidiaeth, Tai a'r Amgylchedd. Mae'r tîm Rheoli Corfforaethol yn ceisio darparu trosolwg colegol o faterion sy'n ymwneud ag asedau, er nad yw'r dull hwn bob amser yn effeithiol.

71 O fewn y Gyfarwyddiaeth Datblygu, mae swyddogion arbenigol yn mabwysiadu dull ar batrwm busnes o reoli asedau'r Cyngor, er enghraifft, wrth adolygu ei gytundebau prydles hirdymor, mae'n mabwysiadu dull masnachol o bennu'r lefelau rhentu yn hytrach na rhenti rhad ac nid yw'n cynnal gwaith 'dodrefnu' nac yn gwneud atgyweiriadau pan nad oes gofyniad cyfreithiol i wneud hynny o dan delerau'r brydles. Fodd bynnag, mae cynnal y dull hwn yn heriol pan fydd y cyfrifoldeb am asedau wedi'i rannu ar draws pum cyfarwyddiaeth wahanol.

72 Hyd yma, nodwn mai prin yw'r enghreifftiau lle mae asedau'r Cyngor wedi cael eu defnyddio i sicrhau gostyngiadau mewn costau, ac nid yw'n glir sut mae rheoli asedau yn 'cyd-fynd' â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

73 Gan gydnabod yr angen am ddull mwy strategol a 'gwerth am arian' o gaffael, rheoli a gwaredu asedau'r Cyngor, argymhellodd y Cabinet (ym mis Rhagfyr 2014) y dylid sefydlu gweithgor rheoli asedau strategol o aelodau/swyddogion i ddatblygu dull o'r fath. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgor hwn wedi cyfarfod eto er bod targed iddo wneud hynny erbyn mis Mawrth 2015. Mae hyn yn gohirio cynnydd tasgau allweddol y bwriedir iddynt gael eu cwblhau gan y gweithgor gan gynnwys datblygu:

a cynllun rheoli asedau strategol diwygiedig 2015-16 i 2019-20 a'r cynllun gweithredu cysylltiedig er mwyn rheoli asedau eiddo'r Cyngor yn well tra'n sicrhau'r arbedion refeniw a'r derbyniadau cyfalaf mwyaf, a

b Chynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaethau er mwyn creu fframwaith ar gyfer cyfarwyddiaethau fel y gallant hwyluso dull mwy cydgysylltiedig a chynlluniedig o reoli ei asedau.

## Er bod staff yn gwerthfawrogi'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer arfarnu perfformiad personol a dysgu a datblygu, nid oes gan y swyddogaeth Adnoddau Dynol y weledigaeth na'r capasiti i gyflawni rôl galluogi gorfforaethol strategol, ac nid yw'r gwaith strategol o gynllunio'r gweithlu wedi ei ddabtlygu'n ddigonol

74 Nid oes strategaeth Adnoddau Dynol ar waith, sy'n cyfyngu ar allu'r tîm Adnoddau Dynol i ddatblygu'r gwasanaeth o adran bersonél draddodiadol, adweithiol i bartner busnes rhagweithiol sy'n gweithio'n strategol i reoli a defnyddio gweithlu'r Cyngor mewn modd effeithiol. Mae diffyg cysondeb rhwng Cynghorwyr Adnoddau Dynol, ynghylch y gwaith y maent yn ei wneud mewn gwirionedd. Mae'r anghysondeb hwn yn deillio o ddiffyg cyfeiriad, yn enwedig o ran gwybod ble mae'r llinell rhwng Cynghorwyr Adnoddau Dynol a'r rheolwyr llinell a gefnogant ar dasgau gweithredol Adnoddau Dynol.

75 Gwnaethom nodi barn gyson, a arferir o fewn y gwasanaeth Adnoddau Dynol ei hun a chan y rhai sy'n derbyn ei wasanaethau, fod materion o ran capasiti yn golygu bod ei ffocws ar gyflawni tasgau trafodol ar draul cyflawni ei rôl ddisgwyliedig fel partner galluogi, gan gefnogi rheolwyr i reoli. Mae hyn yn cael effaith, yn enwedig lle mae gwasanaethau'n ailfodelu eu darpariaeth. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r gwasanaeth Adnoddau Dynol yn bwriadu gwella capasiti drwy ymgymryd ag adnoddau ychwanegol ac ailddylunio ei linellau adrodd. Cyfyngedig yw'r mesurau perfformiad i werthuso effeithiolrwydd y gwasanaeth Adnoddau Dynol ac nid yw'r gwasanaeth yn destun unrhyw broses graffu ar aelodau.

76 I'r gwrthwyneb, mae gan y tîm Dysgu a Datblygu strategaeth glir ac mae wedi datblygu mesurau perfformiad (er nad ydynt yn destun craffu ar aelodau), ac yn mabwysiadu rhai dulliau arloesol. Fodd bynnag, mae'r cyswllt rhwng y tîm Dysgu a Datblygu a'r tîm Adnoddau Dynol yn gyfyngedig, sy'n effeithio ar y gydberthynas rhwng y ddau dîm, gan arwain at gyflawni themâu rheoli pobl llai effeithiol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â hwy ynghylch y Dysgu a'r Datblygu a wneir yn y Cyngor yn gadarnhaol ac yn falch ei fod yn dal i ddigwydd o gofio'r pwysau ar y gyllideb. Mae'r Tîm Dysgu a Datblygu wedi adolygu ei wasanaeth ac wedi ailganolbwyntio ar ei ddarpariaeth eu mwyn diwallu anghenion y sefydliad. Cwtogwyd ar yr amser a dreulir i ffwrdd o'r gweithle yn mynychu sesiynau hyfforddiant drwy ddefnyddio e-ddysgu a dysgu cyfunol yn fwy - roedd hyn yn ymateb uniongyrchol i angen y Cyngor i leihau costau a chynyddu effeithlonrwydd.

77 Mae gan y Cyngor broses sefydlu effeithiol wedi'i hategu gan ddeunyddiau diddorol a defnyddiol ac mae wedi gwella ei broses arfarnu perfformiad, sydd wedi cael ei gymeradwyo ar raddfa eang. Mae cyswllt clir rhwng blaenoriaethau'r Cyngor ac amcanion personol unigol cyflogeion. Mae safonau ymddygiad wedi cael eu creu i gyflogeion a rheolwyr ac ymgorfforir adolygiad ohonynt yn y ddogfen arfarnu. Nid yw'r Cyngor wedi gwneud unrhyw waith ar ansawdd yr arfarniadau perfformiad a gwblhawyd, a'r bwriad yw adolygu a diweddaru'r broses a'r deunyddiau i wella cyfraddau cwblhau. Bydd y tîm Dysgu a Datblygu yn ystyried ansawdd wedyn.

78 Mae'r dulliau o gynllunio'r gweithle yn amrywio ym mhob cyfarwyddiaeth, ond mae'n arbennig o gryf ym maes gofal cymdeithasol, fel y mae ei raglen dysgu a datblygu. Fodd bynnag, nid oes proses gynllunio gweithlu ffurfiol na chyson ar waith yn y Cyngor, er bod y tîm Rheoli Corfforaethol wedi cytuno ym mis Mai 2014 y byddai templedi cynllunio'r gweithlu ar waith erbyn mis Ebrill 2015.

79 Ers mis Tachwedd 2014, mae'r Pennaeth Adnoddau Dynol wedi bod yn mynychu cyfarfodydd y Tîm Rheoli Corfforaethol er mwyn ei helpu i asesu unrhyw oblygiadau o ran Adnoddau Dynol sy'n codi mewn perthynas â'i drafodaethau a'i benderfyniadau. Hefyd, mae'r Pennaeth Adnoddau Dynol yn cyfrannu at adroddiadau'r Cabinet mewn perthynas ag unrhyw oblygiadau o ran Adnoddau Dynol er mwyn llywio'r broses gwneud penderfyniadau yn well. Cynrychiolir y timau Adnoddau Dynol a Dysgu a Datblygu ar y Grŵp Trawsnewid er mwyn cynnal yr angen i ymgorffori dull cyson o arwain, rheoli a datblygu staff wrth iddynt ystyried a datblygu 'model gweithredu targed' newydd.

## Mae defnydd y Cyngor o swyddogaethau technoleg a rheoli gwybodaeth yn cefnogi gwasanaethau yn effeithiol ar y cyfan, er nad yw'n glir sut y caiff y gwasanaethau galluogi hyn eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad gan aelodau

80 Yn ddiweddar mae'r Cyngor wedi cymeradwyo ei Strategaeth TGCh sy'n atgyfnerthu'r cyfeiriad strategol ar gyfer ei swyddogaethau technoleg a gwybodaeth, er nad yw'n adlewyrchu'n glir y strategaeth TGCh genedlaethol ar gyfer Cymru na'r gwaith y mae'n ei wneud fel rhan o'r grŵp TGCh rhanbarthol. Mae newidiadau diweddar yn cynnwys llunio partneriaeth â Chyngor Sir Caerfyrddin. Drwy greu'r bartneriaeth, daeth rôl Pennaeth TGCh yn swydd ar y cyd, gyda'r cyfrifoldeb o lunio achos busnes sy'n cefnogi, neu fel arall, y ddadl dros un gwasanaeth TGCh.

81 Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu swyddogion cadarn ar gyfer technoleg a rheoli gwybodaeth. Mae'r Fforwm Diogelwch Gwybodaeth wedi hen ymsefydlu ac mae'n cynnwys yr amrywiaeth gywir o gynrychiolwyr o bob rhan o'r sefydliad. Mae Perchnogion Asedau Gwybodaeth wedi cael eu penodi a'u hyfforddi. Mae templedi wedi cael eu datblygu er mwyn helpu i adnabod a nodi risgiau o ran gwybodaeth ac mae cysylltiadau wedi'u gwneud â chofrestri risg adrannol.

82 Fodd bynnag, mae craffu ar aelodau a herio perfformiad technoleg a rheoli gwybodaeth yn parhau i fod yn absennol i raddau helaeth heb unrhyw drefniadau rheoli perfformiad clir na llwybrau craffu ar gyfer y rhan fwyaf o feysydd. Cyflwynir rhai adroddiadau gwybodaeth, er enghraifft, ceisiadau am Ryddid Gwybodaeth, i'r Pwyllgor Archwilio ond nid yw'n glir ai hwn yw'r fforwm cywir ar gyfer adroddiadau eraill ar dechnoleg a rheoli gwybodaeth.

83 Mae'r Cyngor wedi adnewyddu ei wefan ac wedi lansio'r gwasanaeth **My Account** er mwyn helpu ei ddinasyddion i gyrchu gwasanaethau'r Cyngor o bell. Mae hwn yn wasanaeth wedi'i ddilysu gan ddefnyddwyr sy'n darparu amrywiaeth o wybodaeth wedi'i theilwra i anghenion y defnyddwyr, er enghraifft, mewn perthynas â chasgliadau gwastraff, y gallu i gael prydau ysgol heb ddefnyddio arian parod, cyfrifon y dreth gyngor ac ati. Mae nifer gadarnhaol, sef sawl mil o ddinasyddion wedi ymrwymo i'r gwasanaeth hwn. Mae'r Cyngor wedi cynnal ei achrediad o ran safon y Diwydiant Cardiau Talu (PCI)[6] sy'n galluogi dinasyddion i dalu am wasanaethau ar-lein.

84 Mae proses dadansoddi busnes y Cyngor a ddilynir gan y Pennaeth TGCh wedi nodi nifer o feysydd lle y gall TGCh/technoleg gynnal arbedion effeithlonrwydd. Er enghraifft, mae'r trefniant gweithio hyblyg ar gyfer gwasanaethau plant yn galluogi gweithwyr cymdeithasol i gael gliniadur gyda meddalwedd cyfathrebu, ac yn eu galluogi hefyd i gael yr hyfforddiant priodol. Cynllun peilot yw hwn a chaiff y gwersi a ddysgir eu defnyddio i ddatblygu a hyrwyddo mentrau tebyg ym meysydd eraill y Cyngor.

85 Mae'r Cyngor yn dechrau gweld manteision rhoi ei system rheoli cofnodion electronig a dogfennau (EDRMS) ar waith, drwy ryddhau lle mewn swyddfeydd, gwneud gweithio mwy hyblyg yn bosibl a symleiddio'r gwasanaethau a ddarperir drwy ddarparu gwybodaeth mewn ffordd amserol.

86 Fodd bynnag, ymddengys fod y capasiti i gefnogi a pharhau i weithredu'r system Adnoddau Dynol a Chyflogres gyfunol yn gyfyngedig, a rhoddodd Adnoddau Dynol a Dysgu a Datblygu enghreifftiau lle y byddai defnydd ehangach yn helpu i sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Deellir bod disgwyl i'r prosiect gael ei adolygu maes o law.

87 Mae hyfforddiant ar reoli gwybodaeth wedi cael ei wella a'i fireinio - cofnodir pob hyfforddiant a ddarperir naill ai ar y system hyfforddi ar-lein neu yn y cofnod Adnoddau Dynol.Cyflwynwyd hyfforddiant i'r rhan fwyaf o'r staff a bwriedir cynnal rhagor o sesiynau hyfforddiant.

6 Mae Safon Diogelwch Data y PCI (PCI DSS) yn darparu fframwaith y gellir ei roi ar waith ar gyfer datblygu proses diogelwch data cardiau talu gadarn gan gynnwys atal, canfod ac ymateb yn briodol i ddigwyddiadau diogelwch.

# Mae'r Cyngor yn gweithio'n rhagweithiol â phartneriaid strategol i wella canlyniadau i ddinasyddion Sir Benfro

88 Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o drefniadau gwaith partneriaeth ar ddechrau mis Ionawr 2015 ac ategwyd yr adolygiad hwn gan waith ychwanegol, a ganolbwyntiodd ar safbwyntiau partneriaid, fel rhan o Asesiad Corfforaethol y Cyngor ym mis Ebrill 2015. Ceisiodd ein gwaith gadarnhau a yw trefniadau cydweithio a phartneriaeth y Cyngor yn gweithio'n effeithiol er mwyn gwella perfformiad a chanlyniadau.

## Mae partneriaid strategol yn fwy cadarnhaol ynghylch cydweithio yn y dyfodol gan eu bod yn ymwybodol o newid o ran natur agored a diwylliant y Cyngor

89 Er bod y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl) yn llai datblygedig yn Sir Benfro na rhannau eraill o Gymru, mae'r Uwch Dîm Rheoli newydd yn gweithio'n rhagweithiol gyda'i bartneriaid i fynd i'r afael â hyn, er mwyn cefnogi agenda gyffredin a mwy agored.

90 Mae'r Prif Weithredwr wedi ehangu'r aelodaeth o'r BGLl i gynnwys Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae'r partneriaid hyn, ac eraill fel PLANED, wedi arsylwi ar ddull newydd y Cyngor ac yn ei groesawu ac maent yn teimlo'n fwy cadarnhaol ynghylch cyfrannu at achosion o gydweithio nawr ac yn y dyfodol.

## Mae'r Cyngor yn monitro perfformiad ei bartneriaethau strategol yn weithredol er mwyn gwerthuso cynnydd wrth gyflawni canlyniadau gwell i ddinasyddion mewn perthynas â blaenoriaethau'r Cynllun Integredig Sengl

91 Mae'r Cyngor a'r BGLl yn monitro'r broses o ddarparu'r Cynllun Integredig Sengl, gan ddefnyddio system cerdyn sgorio Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau sy'n seiliedig ar themâu'r Cynllun Integredig Sengl. Cyflwynir themâu'r Cynllun Integredig Sengl i Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Cyngor lle y gallant gael eu herio ymhellach. Mae hyn yn cynnig ymwybyddiaeth ehangach o gynnydd y Cynllun Integredig Sengl ymhlith aelodau etholedig.

92 Mae'r Cyngor wedi nodi bod angen i'w waith o fonitro a gwerthuso cydweithrediadau a phartneriaethau llai, mwy strategol wella ac mae wedi dechrau mapio pob trefniant partneriaeth.

93 Mae dau o bartneriaethau a chydweithrediadau strategol y Cyngor mewn perthynas â gofal cymdeithasol i oedolion, a astudiwyd fel rhan o'n gwaith, yn arwain at rai canlyniadau gwell i ddinasyddion, sef:

- a Cyfleuster Gofal Ychwanegol Crymych; a
- b Thîm Sefydliad Gwirfoddol Canolraddol Sir Benfro, a elwir yn PIVOT.

94 Mae'r cyntaf yn darparu tai gofal ychwanegol yng ngogledd y sir, mewn partneriaeth â Chymdeithas Tai Teulu a'r bwrdd iechyd prifysgol lleol, Hywel Dda. Mae'r cyfleuster yn cynnig canolfan ddydd newydd, tai â chymorth i'r henoed, fel darpariaeth 'craidd a chlwstwr', ac adnoddau meddygol o ganolfan integredig. Er iddo gymryd blynyddoedd lawer i'w gynllunio, mae'n darparu adnodd gwerthfawr ar gyfer rhannau gwledig o ogledd Sir Benfro.

95 Sefydlwyd yr olaf, sef prosiect PIVOT ym mis Gorffennaf 2014 er mwyn helpu pobl i ddychwelyd adref o'r ysbyty mewn ffordd fwy effeithlon a mynd i'r afael â pherfformiad y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd o ran oedi wrth drosglwyddo gofal. Mae PIVOT yn gydweithrediad rhwng pum sefydliad yn y trydydd sector - Cymdeithas Sefydliadau Cludiant Cymunedol Sir Benfro (PACTO), y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol (RVS), Age Cymru Sir Benfro, Y Groes Goch Brydeinig a Gofal a Thrwsio Sir Benfro. Rheolir y cydweithio a'r adrodd ar ei berfformiad gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS).

96 Mae PIVOT yn wasanaeth saith diwrnod, rhwng 9am a 10pm, gydag un rhif ffôn i gael gafael ar y gwasanaeth. Mae tri 'maes' i'r gwasanaeth - cludiant, gweithwyr achos ac addasiadau ymateb cyflym. Yn ystod chwe mis cyntaf y prosiect deliodd â 164 o atgyfeiriadau, ac o blith y rhain dim ond dau gleient a gafodd eu hailatgyfeirio at y gwasanaeth, a hynny am eu bod wedi cael eu haildderbyn i'r ysbyty.

97 Hefyd, o fewn maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion, mae'r Ganolfan Gomisiynu ar y Cyd yn darparu:

a fframwaith i'r Cyngor mewn perthynas â'r gwasanaethau y mae'n eu comisiynu gan gyflenwyr;

b eglurder ynghylch beth sy'n cael ei wario a pha wasanaethau sy'n cael eu darparu; a

c y cyfle i ddatblygu gwasanaethau newydd mewn partneriaeth, fel PIVOT gyda'r trydydd sector.

98 Delir pob contract yn ganolog, gan roi trosolwg a rheolaeth effeithiol i'r Cyngor o ansawdd gwasanaethau, canlyniadau a gwariant. Bwriedir i'r rhaglen hon ymchwilio i feysydd ychwanegol o wasanaethau a ddarperir, er enghraifft drwy Ddatganiad Sefyllfa'r Farchnad. Ar hyn o bryd mae'r cydweithrediad yn edrych ar bobl hŷn a phobl hŷn â dementia ac yn y dyfodol, mae'n bwriadu edrych ar grwpiau defnyddwyr gwasanaethau eraill, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Croesewir y dull contractau gan y trydydd sector, o gofio ei fod yn rhoi'r un statws i'w wasanaethau â'r statws a roddir gan ddarparwyr eraill a'i fod yn rhoi'r marc ansawdd sydd ei angen iddo.

# Mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen i adolygu ei drefniadau ar gyfer cynllunio gwelliant a rheoli risgiau er mwyn dangos cynnydd o ran blaenoriaethau corffoarethol tra'n cyflawni'r gostyngiadau angenrheidiol mewn costau

## Mae'r Cyngor yn adolygu ei ddull o gynllunio gwelliant er mwyn sicrhau bod gan ei flaenoriaethau corfforaethol adnoddau digonol ac y gellir mesur ac arddangos cynnydd tuag at eu cyflawni

99 Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant a'i ddyletswyddau adrodd o dan y Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac mae wedi gwneud hynny ers nifer o flynyddoedd (gweler Atodiad 2). Mae'r Cyngor yn rhoi hysbysebion yn y wasg leol i dynnu sylw at ei gynlluniau a'i adroddiadau ar berfformiad a gyhoeddir ganddo, ac mae'n gymharol hawdd dod o hyd iddynt drwy wefan y Cyngor, ac mae copïau caled ar gael mewn llyfrgelloedd.

100 Dros amser, mae dull y Cyngor o bennu ei amcanion gwella wedi datblygu. Yn 2010-11, pennodd y Cyngor 26 o amcanion gwella a oedd yn adlewyrchu'r Cynllun Cymunedol oedd mewn grym ar y pryd. Mewn blynyddoedd olynol mae nifer yr amcanion gwella wedi lleihau wrth i'r Cyngor geisio cyfleu diben a chyfeiriad cliriach i'r sefydliad. Ym mhob un o'r tair blynedd ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi pennu pum amcan ar sail gwasanaethau, ac mae cysylltiadau â'r Cynllun Integredig Sengl a'i ganlyniadau allweddol wedi mynd yn fwy penodol mewn perthynas â'r meysydd gwasanaeth hyn. Fodd bynnag, mae'r Cyngor hefyd wedi mabwysiadu amcanion gwella mewn meysydd lle mae ganddo dipyn llai o ddylanwad uniongyrchol, er enghraifft, mewn perthynas ag adfywio a thlodi. Mae'r Cyngor yn cydnabod ei fod wedi ei chael hi'n anoddach dangos gwelliannau yn y meysydd olaf hyn.

101 Cadarnheir hyn gan ganfyddiadau ein hasesiad blynyddol diweddaraf o berfformiad. Fel rhan o'n gwaith, gwnaethom edrych ar ddau o amcanion gwella'r Cyngor i werthuso p'un a oedd adroddiad blynyddol cyhoeddus y Cyngor ar berfformiad yn deg a chytbwys yn y ffordd roedd yn portreadu cynnydd y Cyngor:

a gwella'r amgylchedd, a

b gwella hyfywedd a bywiogrwydd ei chwe phrif dref.

102 Nododd ein gwaith ddarlun cymysg. Mae gan y Cyngor ddewis da o fesurau i ategu ei berfformiad rheoli gwastraff. Defnyddir y mesurau hyn a'r data sylfaenol yn weithredol i reoli'r gwasanaeth a'r systemau dylunio ar gyfer cyswllt effeithiol â'r cyhoedd. Mae'r data hyn yn cynnig adnodd gwerthfawr i'r Cyngor, gan ei helpu i gynnal gwerthusiad cywir o'i gynnydd a chyflwyno portread teg a chytbwys o berfformiad yn y maes hwn yn ei adroddiad i'r cyhoedd. Fodd bynnag, gwelsom fod y gwerthusiad o gynnydd y fenter 'Town Team' yn gyfyngedig oherwydd diffyg mesurau perfformiad a chanlyniadau priodol. Gwnaeth hyn, ynghyd â diffyg dull ymgysylltu effeithiol â phartneriaid a dim digon o gyfranogiad gan staff gwasanaethau wrth ddrafftio'r adroddiad cyhoeddus wanhau'n sylweddol ddull y Cyngor o adrodd ar berfformiad yn erbyn yr amcan gwella hwn.

103 Mae’r Cyngor wrthi’n datblygu ei amcanion gwella ar gyfer 2016-17 ac mae’n adolygu ei ddull yng ngoleuni’r materion a nodwyd uchod. Mae ffactorau sbarduno eraill ar gyfer newid dull yn cynnwys y gwerthoedd sefydliadol diwygiedig sydd wrthi’n cael eu datblygu; ymatebion i’r ymgynghoriad cyhoeddus, pwysau sylweddol ar y gyllideb a pharatoi i gydymffurfio â gofynion deddfwriaethol newydd a gyflwynir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015. Er bod angen gwneud gwaith pellach, mae’n debygol y bydd y broses hon yn arwain at gymysgedd o amcanion gwella yn seiliedig ar wasanaethau (sy’n gysylltiedig â’r Cynllun Integredig Sengl) ac yn seiliedig ar brosesau (i drawsnewid y sefydliad a lleihau costau). Bydd yn bwysig i’r Cyngor gael sicrwydd bod ei amcanion gwella sy’n dod i’r amlwg yn flaenoriaethau gwirioneddol gorfforaethol, sydd â digon o adnoddau gan gynnwys y prosesau sy’n ofynnol er mwyn monitro a mesur llwyddiant.

104 Er mwyn cyflawni ei gynlluniau gwella, mae gan y Cyngor fframwaith rheoli perfformiad sefydledig sy’n cynnwys prosesau monitro a herio perfformiad a model hunanwerthuso. Ar lefel reoli, hysbysir y Tîm Rheoli Corfforaethol am eithriadau i berfformiad gwasanaethau ar ôl i brosesau adrannol gael eu cyflawni a cheir tystiolaeth fod problemau sy’n ymwneud â pherfformiad wedi cael eu datrys o ganlyniad i’r dull hwn.

105 Serch hynny, mae cyfleoedd ar gael i’r Cyngor adolygu a gwella ei drefniadau rheoli perfformiad. Fel y soniwyd mewn rhan arall o’r adroddiad hwn, nid oes mesurau perfformiad ar hyn o bryd ar gyfer gwasanaethau corfforaethol fel Adnoddau Dynol a phrin y caiff perfformiad swyddogaethau corfforaethol allweddol o’r fath eu herio. Bu llithriant hefyd wrth ddarparu system graffu ar gyfer adroddiadau perfformiad chwarterol, gan gynnwys diweddariadau ar berfformiad gwasanaethau a diweddariadau ar y gyllideb ariannol, sydd wedi effeithio ar eu gallu i graffu ar berfformiad a dwyn swyddogion i gyfrif. At hynny, nodir bod yr aelodau craffu yn ei chael hi’n anodd deall yr adroddiadau ar berfformiad, sy’n gwanhau eu gallu i graffu’n effeithiol, ac yn cyfyngu ar effaith yr elfen allweddol hon o’r broses rheoli perfformiad.

## Mae'r Cyngor yn atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer nodi a lliniaru risg i fusnes

106 Cymeradwywyd Strategaeth Risg i Fusnes y Cyngor gan y Pwyllgor Archwilio yn 2013 ac fe'i hadolygwyd eto yn 2014, i atgyfnerthu'r fframwaith rheoli risg a sefydlu barn gymeradwy o'r lefel dderbyniol o risg. Mae'r Cyngor wedi datblygu ymhellach ei ddull o reoli risg eleni, gan sefydlu amrywiaeth o grwpiau gyda rolau a chyfrifoldebau clir mewn perthynas â nodi, lliniaru a monitro risgiau i fusnes. Er mwyn hyrwyddo gwelliant mae'r Cyngor wedi datblygu cynllun gweithredu ar reoli risg i fusnes ac wedi neilltuo swyddogion cyfrifol; ac mae wedi penodi Rheolwr Risg i Fusnes cymwys i ddarparu arbenigedd a chapasiti ychwanegol.

107 Mae Grŵp Rheoli Risg Corfforaethol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob Adran, sef Pennaeth Gwasanaeth fel arfer, yn cyfarfod bob chwarter. Swyddogaeth y grŵp hwn yw adolygu'r gofrestr Risg Gorfforaethol a gweithredu fel cyfrwng i'r Tîm Rheoli Corfforaethol ac i Reolwyr Adrannau. Hefyd, bydd Aelod o'r Cabinet yn bresennol, gan roi trosolwg fel Aelod o bob maes sy'n peri risg fawr.

108 Gan gydnabod yr angen i nodi lefelau risgiau i wasanaethau'n well a chodi ymwybyddiaeth o reoli risgiau ym mhob rhan o'r Cyngor, sefydlwyd grŵp risgiau gweithredol. Mae aelodau o'r grŵp hwn yn 'hyrwyddo' rheoli risg o fewn y sefydliad ac yn darparu capasiti ychwanegol i gefnogi trefniadau adrannol.

109 Cynhaliwyd gweithdy rheoli risg i fusnes gyda'r Pwyllgor Archwilio, fodd bynnag, nid yw'r Pwyllgor Archwilio yn cyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli risg yn llawn. Nid yw'n adolygu'r gofrestr risg gorfforaethol yn ddigon cyson er mwyn herio ei chynnwys ac nid yw ychwaith yn hysbysu'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu am y risgiau a allai effeithio ar eu meysydd gwasanaeth hwy, gan gyfyngu ar eu gallu i ystyried meysydd risg wrth iddynt ddatblygu eu blaenraglenni gwaith. Mae'r Cyngor yn datblygu hyn fel cam blaenoriaeth.

# Mae’r Cyngor wedi gwneud gwelliannau mewn rhai meysydd blaenoriaeth allweddol, wedi gwella ei berfformiad dros y flwyddyn flaenorol, ac wedi gwella o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru

110 Mae’r adran hon o’r adroddiad yn ystyried a yw’r Cyngor yn gwneud cynnydd o ran cyflawni ei welliannau arfaethedig ym maes perfformiad gwasanaethau a chanlyniadau.

## Er gwaethaf y pwysau ariannol cynyddol, bu gwelliannau ym meysydd blaenoriaeth y Cyngor, gan gynnwys rheoli gwastraff, iechyd yr amgylchedd, diogelu, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg

111 Gwnaethom gyhoeddi ein Hadroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer 2014-15 i’r Cyngor ym mis Medi 2015, a nododd hyn yn eithaf manwl y cynnydd a wnaed gan y Cyngor mewn perthynas â’i amcanion gwella gan ddefnyddio ein gwaith ein hunain, a gwaith arolygiaethau eraill Cymru, Estyn (ar gyfer addysg), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), a Chomisiynydd y Gymraeg. Daethom i’r casgliad ‘er gwaethaf y pwysau ariannol cynyddol, bu gwelliannau ym meysydd blaenoriaeth y Cyngor, gan gynnwys rheoli gwastraff, iechyd yr amgylchedd, diogelu, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg’. Daethom i’r casgliad hwn oherwydd:

a o ganlyniad i’w waith rheoleiddiol gyda’r Cyngor, adroddodd Estyn fod:

- y Cyngor wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â’r argymhellion yn dilyn ei arolygiad ym mis Hydref 2012 fel nad oes angen iddo fod yn destun mesurau arbennig mwyach;
- perfformiad presennol Partneriaeth Dysgu Cymunedol i Oedolion Sir Benfro yn dda, ac mae ei rhagolygon ar gyfer gwella yn ddigonol; ac
- Uned Cyfeirio Disgyblion Sir Benfro wedi gwneud cynnydd digonol o ran yr argymhellion yn dilyn yr arolygiad ym mis Mawrth 2012, er mwyn ei alluogi i dynnu ei henw oddi ar y rhestr o unedau cyfeirio disgyblion sydd angen gwella’n sylweddol.

b dywedodd AGGCC fod gwelliant parhaus wedi bod yng ngwasanaethau cymdeithasol y Cyngor yn ystod y flwyddyn;

c dywedodd Comisiynydd y Gymraeg fod y Cyngor wedi sefydlu gweithgor i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y fframwaith ‘Mwy na Geiriau’ ac mae’n cynnal cynllun peilot llwyddiannus o becyn hyfforddiant iaith Gymraeg;

ch ac, yn seiliedig ar ein gwaith asesu gwella ein hunain a gyflawnwyd yn ystod 2014-15, adroddwyd:

- bod y Cyngor wedi cyflawni ei uchelgeisiau ar gyfer yr amgylchedd drwy barhau i ragori ar dargedau cenedlaethol ar gyfer cyfran y gwastraff a ailgylchwyd a faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi;

- er bod y Cyngor wedi cefnogi cynlluniau i wella hyfywedd a bywiogrwydd ei chwe phrif dref, bod diffyg mesurau defnyddiol yn ei gwneud hi'n anodd i'r Cyngor werthuso ei lwyddiannau'n gywir; a
- bod perfformiad y Cyngor o ran gweinyddu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn wael.

## Mae'r Cyngor wedi gwella ei berfformiad cyffredinol yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol dros y flwyddyn flaenorol ac o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru

112 Nododd ein gweithgarwch asesu corfforaethol ymdeimlad clir o falchder ymhlith aelodau a staff mewn perthynas â hanes da gwasanaethau sydd wedi perfformio'n dda iawn dros nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, i'r un graddau, mynegwyd siomedigaeth ynghylch y dirywiad cyffredinol mewn safonau perfformiad a gyflawnwyd gan y Cyngor yn 2013-14, ac o ran rhai heriau gwasanaethau penodol a wynebwyd, er enghraifft, mewn gwasanaethau Addysg.

113 O ganlyniad, ym mis Medi 2015, gwnaeth Llywodraeth Cymru ac Uned Data Cymru ryddhau'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSCau) ar gyfer 2014-15 a'r Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MACau) ar gyfer y 22 o gynghorau yng Nghymru ar eu ffurf gyhoeddedig derfynol. Dengys y data hyn fod y Cyngor wedi gwella ei berfformiad mesuredig dros y flwyddyn flaenorol ac o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru (gweler Arddangosyn 2).

114 Dengys y data, yn ystod 2014-15, fod perfformiad y Cyngor:

a wedi gwella mewn perthynas â 33 o'i ddangosyddion (o gymharu â 24 yn 2013-14);

b wedi dirywio mewn perthynas â dim ond 5 o'i ddangosyddion (o gymharu â 17 yn 2013-14);


c yn y 'chwartel uchaf' mewn perthynas â 17 o'i ddangosyddion (o gymharu â 14 yn 2013-14); ac

ch yn y 'chwartel isaf' mewn perthynas â dim ond 7 o'i ddangosyddion (o gymharu â 13 yn 2013-14).


115 Nid oes un gwasanaeth penodol yn gyfrifol am y newidiadau hyn gan fod pob gan bob maes ddangosyddion perfformiad sy'n gwella ac yn dirywio.

## Arddangosyn 2: Perfformiad Sir Benfro – 2014-15 DSCau a MACau

Sut mae perfformiad Sir Benfro wedi newid dros amser?




Sut mae perfformiad Sir Benfro yn cymharu â chynghorau eraill yng Nghymru?[7]




Ffynhonnell: Yr Uned Ddata Llywodraeth Leol - Canolfan Feincnodi, Medi 2015

7 Mae cynghorau sy'n perfformio yn well yng Nghymru yn cael eu cynrychioli yn y Chwartel Uchaf ac mae cynghorau sy'n perfformio'n waeth yng Nghymru yn cael eu cynrychioli yn y Chwartel Isaf.

116 Mewn adroddiad i'r Cabinet ar 5 Hydref 2015, nododd swyddogion y gwelliant sylweddol mewn perfformiad mewn perthynas â'r DSCau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond tynnwyd sylw hefyd at nifer o fesurau yr oedd angen mynd i'r afael â hwy yn eu barn hwy oherwydd:

a mae tri yn waeth na chyfartaledd Cymru ac nid ydynt yn gwella; ac

b mae 10 yn waeth na chyfartaledd Cymru er eu bod yn gwella.

Darparwyd rhywfaint o wybodaeth gyd-destunol yn esbonio'r tanberfformiad a'r camau gweithredu a gynigiwyd i fynd i'r afael â hynny, a chymeradwyodd y Cabinet ddull gweithredu o fonitro mesurau perfformiad statudol fel ffordd o lywio gwelliant parhaus. Efallai y bydd swyddogion am ystyried cynnwys MACau yn y dull gweithredu/dadansoddiad hwn yn y dyfodol.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2015-16 Cyngor Sir Penfro

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Cyngor Sir Penfro (y Cyngor) yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

- wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau y caiff ei amcanion gwella eu cyflawni; a
- gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau er mwyn sicrhau y cyrhaeddir unrhyw safon perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am y wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd y Cyngor, mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, archwilio'r Cynllun Gwella, ardystio fy mod wedi gwneud hynny a chyflwyno adroddiad i nodi a wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth nac ar b'un a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor yn cynnwys adolygu'r cynllun er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Huw Vaughan Thomas

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Copi i: Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

Colin Davies, Rheolwr

Jeremy Evans, Arweinydd Archwilio Perfformiad

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru